

Carchar y Parc – Gwreiddio dull gweithredu seiliedig ar hawliau

Carchar categori B ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Cymru yw Carchar y Parc, ac mae'n cynnwys unedau oedolion, troseddwr ifanc a phobl ifanc. Mae'r uned pobl ifanc yn gartref i droseddwr gwryw 15-17 oed. Mae'r Bobl Ifanc yn cael mynediad at 25 awr o addysg yr wythnos ac yn dewis pa 'lwybr' sydd o'r diddordeb mwyaf iddyn nhw (iechyd a llesiant, gwaith saer, cerddoriaeth a glanhau diwydiannol), yn ogystal â'r prif gwricwlwm, sef rhifedd, llythrennedd, celf, cyflogadwyedd, TGCh a dinasyddiaeth. Mae'r dosbarth dinasyddiaeth yn trafod materion yn ymwneud â'u hamgylchedd, eu hiechyd, eu perthnasoedd a'u hawliau.

Mae nifer y bobl ifanc sydd yn y carchar yng Nghymru yn isel iawn, ac mae'r rhan fwyaf o'r bobl ifanc yn aden Troseddwr Ifanc y Parc wedi dod o Loegr. Mae llawer o waith wedi cael ei wneud yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf i newid diwylliant yr uned fel ei bod wedi'i seilio'n fwy ar werthoedd a pharch – mae'r **Ffordd Seiliedig ar Hawliau** wedi cydweddu â hynny.

Mae'r holl staff yn cael gwybod am CCUHP, mae disgwyl iddyn nhw ddefnyddio iaith hawliau a chyfeirio at hawliau lle bo hynny'n berthnasol, ac mae safonau a disgwyliadau clir ar eu cyfer, e.e. mae staff yn defnyddio iaith hawliau i ddatrys gwrthdaro. Mae ymwybyddiaeth o CCUHP yn rhan o gyfnod sefydlu dynion ifanc y Parc, ac maen nhw'n cael eu hannog i fod yn ymwybodol o'u hawliau. Mae erthyglau yn cael eu harddangos yn amlwg ar draws yr uned, ac maen nhw'n cael eu defnyddio mewn sgysiau gyda'r bobl ifanc a'r staff.

Mae'r holl bobl ifanc yn y Parc yn cael eu dysgu am eu hawliau a hawliau pobl eraill yn ein cymuned. Mae pob person ifanc yn cael anogaeth i rannu eu barn ar faterion sy'n effeithio arnyn nhw ym mhob agwedd ar yr Uned Pobl Ifanc. Mae hynny'n digwydd trwy drafodaethau dosbarth bob pythefnos, gyda sesiynau mewnbwn i'r Cyngor Myfyrwyr. Yn dilyn hynny mae cyfarfodydd misol gydag aelodau perthnasol ostaff a rheolaeth gydag aelodau o'r Cyngor Myfyrwyr. Mae hynny'n sicrhau bod barn yr holl bobl ifanc yn cael gwrandawriad, a'u bod nhw'n cael mwy o fewnbwn i fywyd yr Uned Pobl Ifanc.

Mae'r staff wedi cael hyfforddiant i gefnogi pobl ifanc, gan gynnwys: hyfforddiant rheoli ymddygiad plentyn-ganolog; mae hyfforddiant ynghylch egwyddorion trawma wedi cael ei gyflwyno i sicrhau bod y staff yn empathetig ac yn gefnogol; mae'r staff gweithrediadau wedi cael hyfforddiant addysgol, er mwyn iddyn nhw fedru dangos diddordeb a chefnogi'r dynion ifanc y tu allan i'r oriau addysg.

Roedd y staff y buon ni'n siarad â nhw yn teimlo bod parch wedi cynyddu'n aruthrol o'r ddau gyfeiriad, a bod y staff yn herio'i gilydd os byddan nhw'n teimlo bod rhywbeth yn annheg. Hefyd mae'r disgyblion yn ymgysylltu â'u haddysg ac eisiau plesio'r athrawon.

Mae amrywiaeth o wasanaethau'n cael eu cyflwyno i sicrhau bod y dynion ifanc yn cael mynediad i'w hawliau o ran iechyd a gwrandawriad, e.e. staff nyrsio mewnol, seicolegydd,

seiciatrydd a nyrs iechyd meddwl sy'n dod ar ymweliadau a gwasanaethau cymdeithasol, e.e. eiriolaeth (Barnardos), gweithiwr cymdeithasol ar y safle a gweithwyr achosion.